# Dolwyddelan yn dod a Llygedyn o Haul ar Ddydd San Steffan

Wrth gwrs mae gan Ddolwyddelan y gallu i sicrhau bod unrhyw ddigwyddiad chwaraeon yn un o'r radd flaenaf gyda phawb yn chwerthin llond eu bol. Doedd Dydd San Steffan ddim gwahanol.

Roedd hi'n ddiwrnod gaeafol ond braf prin a daeth trigolion y pentref ynghyd ar gyfer cystadleuaeth rholio casgenni blynyddol ar ddydd San Steffan. Yn wir mae'r gystadleuaeth rholio casgen yn debyg i nifer o draddodiadau Cymreig lle byddwn yn tybio gyda balchder "pwy a *ŵyr sut gychwynnodd hyn, ond dydyn ni ddim am roi'r gorau iddi bellach".*

Trefnwyd y digwyddiad eleni gan y tîm yn Nhafarn Y Gwydyr, ac roedd yn ddigwyddiad arbennig: roedd torf sylweddol gyda digonedd o floeddio a chwerthin, a rhesi o gystadleuwyr yn amrywio o drigolion lleol profiadol i dîm wedi'i atgyfnerthu gan ymwelwyr rhyngwladol o Awstraliad, a wnaeth gyrraedd fel twristiaid a gadael fel preswylwyr anrhydeddus Dolwyddelan, yn ôl pob tebyg ar ôl dysgu rheolau allweddol y dydd:

1. Gafaelwch yn dynn.
2. Rhedwch nerth eich pen.
3. Os yw'n siglo, daliwch ati.

Yn wir, siglo wnaeth y gasgen.



"Mae gan y gasgen feddwl ei hun" yn ôl y sôn a dyna'n union ddigwyddodd ar hyd y llwybr. Ar adegau bu'n rholio fel athletwr disgybledig. Yna, ar adegau eraill bu'n ymddwyn fel ei fod newydd gofio ei fod yn hwyr i apwyntiad yn rhywle arall yn y pentref.

Er hynny, roedd cystadleuaeth chwyrn, yn debyg i unrhyw gystadleuaeth yn Nolwyddelan: mymryn o uchelgais i ragori yn y chwaraeon, twtsh o